

# Canllawiau Cyflym

## Cyflenwad pŵer

Pan nad yw'r recordydd yn cael ei ddefnyddio, diffoddwch y pŵer er mwyn lleihau defnydd y batri. Hyd yn oed pan ddiffoddir y pŵer, cedwir y data presennol, y gosodiadau modd a'r gosodiadau cloc.

## Troi'r pŵer ymlaen

Pan fo'r recordydd wedi'i ddiffodd, sleidiwch y switsh **Power/Hold** i lawr a'i ddal am eiliad neu ddau. Daw'r pŵer ymlaen a daw'r dangosydd ymlaen hefyd.

## Diffodd y pŵer

Sleidiwch y switsh **Power/Hold** i lawr a'i ddal am eiliad neu ddau. Bydd y dangosydd yn diffodd a chaiff y pŵer ei ddiffodd hefyd.

## Modd arbed pŵer

Os yw'r recordydd ymlaen ond heb ei ddefnyddio am 10 munud neu fwy (rhagosodiad), bydd y dangosydd yn cau ac aiff i fodd arbed pŵer. I adael y modd arbed pŵer gwasgwch unrhyw fotwm.

## Recordio

### 1. Dewiswch y ffolder recordio

Cyn dechrau recordiad, dewiswch ffolder o A-E ar y ddewislen **Recorder**.

### 2. Gwasgwch y botwm REC i recordio

Bydd y symbol recordio yn ymddangos ar y dangosydd

### 3. Gwasgwch y botwm STOP i ddod â'r recordiad i ben

Bydd y symbol stop yn ymddangos ar y dangosydd ynghyd â hyd y ffeil. Bydd bîp dwbl yn seinio.

## Chwarae'n ôl

1. Dewiswch y ffeil i'w chwarae'n ôl o'r ffolder A-E perthnasol.
2. Gwasgwch y botwm **OK/Play** i chwarae'r recordiad.
3. Gwasgwch y botwm **Up** neu **Down** i addasu lefel y sain at lefel wrando gysurus.
4. Gwasgwch y botwm **Stop** unrhyw bryd i orffen y gwrاندawiad; bydd hynny'n stopio chwarae'r ffeil.

### Gosod marc mynegai neu farc dros dro

Mae marciau mynegai a marciau dros dro yn eich galluogi i ddod o hyd yn gyflym i leoliad lle'r hoffech ddechrau gwranddo eto; ychydig fel lliwddangos pwynt, neu osod dalen-nodyn mewn llyfr. Maent yn ddefnyddiol ar gyfer marcio pryd y newidiwyd y sleid.

1. Pan fo'r recordydd yn y modd recordio neu'r modd chwarae yn ôl, gwasgwch y botwm **F2 (INDEX)**.

Bydd rhif yn ymddangos ar y dangosydd a gosodir marc mynegai neu farc dros dro.

Wrth wrando'n ôl ar y recordiad, defnyddiwch y botymau neidio ymlaen neu ailddirwyn i symud at y marciau mynegai.

### Dileu ffeiliau

Gellir dileu ffeil sydd wedi'i ddewis o ffolder. Hefyd, gellir dileu pob ffeil mewn ffolder ar yr un pryd.

1. Dewiswch y ffeil yr ydych eisiau ei ddileu.

2. Pan fo'r recordydd yn y modd recordio neu'r modd chwarae yn ôl, gwasgwch y botwm **Erase**.

3. Gwasgwch y botwm **Up** neu **Down** i ddewis [**Erase in folder**] neu [**File erase**].

4. Gwasgwch y botwm **OK/Play**.

5. Gwasgwch y botwm **Up** i ddewis [**Start**].

6. Gwasgwch y botwm **OK/Play**.

Mae'r dangosydd yn newid i [**Erase!**] a bydd y broses dileu yn dechrau. Caiff [**Erase Done**] ei ddangos pan fo'r ffeil wedi'i ddileu.

### Gwefru trwy gysylltu â phorth USB ar gyfrifiadur.

Gellwch wefru'r batris trwy gysylltu â phorth USB ar gyfrifiadur. Wrth wefru cofiwch osod y batris ailwefradwy (a gyflenwir) yn gywir yn y recordydd.

1. Rhwch y cyfrifiadur ymlaen.

2. Cysylltwch y cebl USB i'r porth USB ar y cyfrifiadur.

## Canllawiau Cyflym: Recordydd llais digidol Olympus DM670

3. Pan fo'r recordydd yn y modd stop neu wedi'i ddiffodd, cysylltwch y cebl USB i'r derfynell ar waelod y recordydd.
4. Gwasgwch y botwm **OK/Play** i ddechrau gwefru pan fo [**Press OK/Play to start charging**] yn fflachio ar y dangosydd.
5. Mae'r gwefru wedi ei gwblhau pan fo'r symbol dynodi batri yn dangos **F**.  
Amser gwefru: tua thair awr\*

\* Bydd yr amser gwefru sy'n ymddangos yn amrywio yn dibynnu ar yr amser sy'n weddill a chyflwr y batris.